# COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 31 MAWRTH 2025 AM 11:00

## Yn Bresennol

Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| JPD Blundell | HJ David |

## Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | H Griffiths | D M Hughes | J Llewellyn-Hopkins |
| I M Spiller | T Thomas | AJ Williams | ED Winstanley |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Angela Clarke | Cynrychiolydd Cofrestredig – Yr Eglwys yng Nghymru |
| Becca Avci | Cydlynydd Cynllun Cymraeg mewn Addysg |

## Gwahoddedigion / Cynrychiolwyr Cofrestredig:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Gaynor Thomas | Rheolwr Rhaglen Ysgolion |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Justin Kingdon | Rheolwr Grŵp Landlord Corfforaethol |
| Jason Burton | Prif Gynorthwyydd Pensaernïol |
| Stephanie Thomas | Rheolwr Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant |

Penaethiaid:

| | |
|---|---|
| Adam Raymond | Pennaeth Ysgol Gynradd Pencoed |
| Delyth Davies | Pennaeth Ysgol y Ferch o'r Sgêr |
| Mike Stephens | Pennaeth Ysgol Gyfun Porthcawl |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu |

Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| AJ Williams | Personol – Eitem 4 – Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety |
| JPD Blundell | Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Bryntirion |
| H Griffiths | Personol – Eitem 4 – Cadeirydd Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Ffaldau a Choleg Cymunedol y Dderwen |
| E. D. Winstanley | Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr yn Ysgolion Cynradd Afon-y-Felin a'r Ferch o'r Sgêr |
| I.M. Spiller | Personol – Eitem 4 – Plant yn Ysgol Gyfun Bryntirion |

**67. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 ar 16 Ionawr 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Mawrth 2025 |

## 68. Moderneiddio Ysgolion

<table>
<tr><td>Y Penderfyniad a Wnaed</td><td><u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>Argymhellion:<br><br>1. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i fod yn ymwybodol o'i rôl ei hun wrth fonitro, rheoli a lliniaru prosiectau moderneiddio ysgolion ar ran yr awdurdod lleol, fel bod prosiectau'n cael eu cyflawni ar amser ac ar gyllideb a gwnaeth gais fod adroddiad strategol a blaengar yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan yr Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol, a fyddai'n cynnwys y canlynol:<br><br>▪ Archwiliad o gyflwr pob ysgol yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br>▪ Dadansoddiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau moderneiddio ysgolion sydd wedi digwydd neu sydd yn y broses o gael eu cynllunio a'u hadeiladu, gan gynnwys effaith grymoedd gwleidyddol ac economaidd ehangach. Byddai angen i'r adroddiad ystyried materion fel rôl a gwerth capiau prisiau; rheoli a lliniaru risg, gan gynnwys effaith ecoleg ar amseru a chostau prosiectau; caffael; caffael tir; effaith newidiadau dylunio i brosiectau; a rheoli a goruchwylio prosiectau, yn enwedig o ran cyfraniad y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol.<br>▪ Demograffeg y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol, ac effaith datblygiadau tai newydd ac arfaethedig, a'r effaith bosibl ar ddalgylchoedd ysgolion a niferoedd disgyblion.<br>▪ Dyfodol moderneiddio ysgolion a chyllid prosiectau yng Nghymru.<br><br>2. Argymhellodd y Pwyllgor, o ystyried yr heriau sylweddol yn sgil y cynnydd ym mhoblogaeth y Sir yn unol â'r datblygiadau newydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol a’r ffaith fod Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal twf strategol sydd yr un mor bell oddi wrth Gaerdydd ac Abertawe, fod angen mynd i'r afael â materion datblygu ysgolion yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn y lle cyntaf, a bod angen codi a thrafod materion yn ymwneud â hyblygrwydd wrth gynllunio ar gyfer niferoedd disgyblion arfaethedig a dyfodol rhaglenni a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer moderneiddio ysgolion.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>31 Mawrth 2025</td></tr>
</table>

**69. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Chwarter 3 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2024-25, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2024-25 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2024-25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ac ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Mawrth 2025 |

**70. Diweddariad am y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cydnabu'r Pwyllgor, yn dilyn Argymhelliad Archwilio Cymru a wnaed yn ei adroddiad ar Drefniadau Gwneud Penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2024, y bydd y Flaenraglen Waith yn cael ei chryfhau i fod yn fwy blaengar, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i alinio â Blaenraglen Waith y Cabinet yn ogystal ag atgyfeiriadau gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer craffu cyn penderfynu.<br><br>Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor **gais** i’r canlynol gael ei gynnwys yng nghwmpas yr adroddiad ar **Ymddygiad, Gwaharddiadau a Phresenoldeb Disgyblion,** i'w ystyried gan yr Aelodau yn y cyfarfod ar 8 Mai:<br><br>• Diweddariad ar Gadw Dysgwyr yn Ddiogel gan gynnwys, os yn briodol, unrhyw ddiweddariad ar y gweithgor arfaethedig a sefydlwyd gan yr Aelod Cabinet ynghylch Diogelwch Disgyblion (casgliadau, os oes o gwbl ar hyn o bryd, neu rywfaint o eglurder ynglŷn â'r aelodaeth a'r |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau).<br>• Effaith y **rhestr aros ar gyfer darpariaeth arbenigol** ar ymddygiad heriol a gwaharddiadau mewn ysgolion prif ffrwd.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor **gais** i'r canlynol gael ei gynnwys yng nghwmpas adroddiad i'w ystyried gan yr Aelodau mewn cyfarfod yn gynnar yn 2025/26 Blaenraglen Waith:<br><br>• Cynlluniau Datblygu Unigol.<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>• Darpariaeth Arbenigol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau canlynol a'r sesiynau briffio aelodau gael eu cytuno a'u cyflwyno mewn iteriad o'r Flaenraglen Waith yn y dyfodol:<br><br>• Cynlluniau gwella ysgol – Cyfarfod ar ddechrau 2026.<br>• Perfformiad ysgolion - Adroddiadau Estyn - Briff Aelodau - Cynnwys manylion ar lefel ysgol.<br>• Diffygion ysgol – ar ffurf adroddiad i'r pwyllgor neu Friff Aelodau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Mawrth 2025 |

## 71. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 31 Mawrth 2025 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:39.